Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

GIG CYMRU NHS WALES

National Leadership and Innovation Agency for Healthcare
Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd
Supporting NHS Wales to deliver world class healthcare
Cefnogi GIG Cymru i gyflwyno gofal iechyd o safon fyd-eang

DATGANIAD I'R WASG / PRESS RELEASE

Mehefin 14, 2010

Gwobrau GIG Cymru 2010 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar y Rhestr Fer

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn dathlu ar ôl cyrraedd y rhestr fer dair gwaith yng Ngwobrau pwysig GIG Cymru 2010.

Mae'r Gwobrau yn cydnabod arfer da a chyraeddiadau yng ngofal iechyd ar draws GIG Cymru a chyhoeddir yr enillwyr ddydd Gwener, 2 Gorffennaf 2010.

Gyda dros 190 o enwebiadau, her i'r panel beirniadu o arbenigwyr GIG oedd dewis rhestr fer o dri enillydd posibl ym mhob un o'r chwe chategori.

Dywedodd Mary Burrows, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, "Rydym yn falch iawn fod ein gwaith o geisio gwella gofal iechyd wedi cael ei gydnabod gan feirniaid Gwobrau GIG Cymru.

"Mae cyrraedd y rhestr fer dair gwaith yn gryn gamp, ac mae'n adlewyrchu gwaith caled staff y Bwrdd Iechyd i ddarparu'r gofal gorau bosibl i'n cleifion."

Rhoddwyd gwaith arloesol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar y rhestr fer mewn dau gategori.

Yn y categori 'Dinasyddion yn Ganolog i Gynllunio a Darparu Gwasanaeth', cafodd ei roi ar y rhestr fer ddwywaith; am ddatblygu Rhaglen Ôl Driniaeth i Gleifion Canser y Fron a 'Taith', Gwasanaeth Dydd Therapiwtig yn y Gymuned. Mae'r gwasanaeth, y cyntaf o'i fath yng Nghymru, yn darparu ar gyfer cleientiaid ag ymddygiadau hunanddinistriol ac anawsterau perthynas, ac yn aml â diagnosis o anhwylder personoliaeth. Mae Taith yn enghraifft wych o sicrhau bod cynnwys cleient yn ganolog i'r gwasanaeth.

Cafodd ei waith yn darparu gofal iechyd a chymdeithasol integredig yn ardal wledig Llanrwst hefyd ei gydnabod yn y categori 'Gweithio'n Ddi-dor ar draws Sefydliadau'. Mae Canolfan Crwst yn cynnig un pwynt mynediad hwylus at ystod estynedig o wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer cymunedau gwledig Conwy. Mae'r ganolfan yn adnodd ardderchog i bobl leol, ac mae'n enghraifft dda o'r Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol yn cydweithio i symleiddio gofal cleifion.

Trefnir Gwobrau GIG Cymru 2010 ar y cyd rhwng Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd (NLIAH) a Llywodraeth Cynulliad Cymru ac maent yn cydnabod arfer da a chyraeddiadau.

Dywedodd Cyfarwyddwr Ymchwil a Datblygiad NLIAH, Dr Alan Wilson, sy'n arwain y prosiect Gwobrau GIG, "Mae safon uchel yr enwebiadau o bob ardal o Gymru yn dangos fod cleifion yn elwa o welliannau llwyddiannus a gynlluniwyd yn dda i roi'r profiad iechyd a gofal iechyd gorau bosibl.

Mae'r Gwobrau'n gyfle i ddathlu llwyddiant ac i sicrhau fod syniadau a safonau da yn cael eu lledaenu'n gyflym.

"Mae safon yr enwebiadau wedi codi'n sylweddol yn ystod y tair blynedd ers sefydlu'r Gwobrau, gan ddangos uchelgais a chyrhaeddiad o'r radd flaenaf."

Cyhoeddir enillwyr chwe chategori Gwobrau GIG Cymru yng Nghanolfan yr Holl Genhedloedd, Caerdydd, ddydd Gwener 2 Gorffennaf 2010.

DIWEDD

June 14, 2010

NHS Wales Awards 2010 – Betsi Cadwaladr University Health Board Makes Shortlist

Betsi Cadwaladr University Health Board is celebrating after being shortlisted three times in this year's prestigious NHS Wales Awards 2010.

The Awards recognise best practice and achievement in healthcare across NHS Wales and the winners will be announced on Friday July 2, 2010.

With more than 190 entries received, the judging panel of NHS experts had a tough task of selecting a shortlist of three possible winners in each of the six award categories.

Betsi Cadwaladr University Health Board Chief Executive Mary Burrows said, "We are delighted that our work to improve healthcare has been recognised by the judges of the NHS Wales Awards.

"Reaching the shortlist three times is a great achievement and reflects the hard work of the University Health Board staff to provide the best possible care for our patients."

Betsi Cadwaladr University Health Board's innovative work has been shortlisted in two categories.

In the 'Citizens at the Centre of Service Design and Delivery' category it has been shortlisted twice; for the development of an After Treatment Programme for Breast Cancer Patients and 'Taith' a Therapeutic Community Day Service. The service, which is the first of its kind in Wales, caters for clients with self destructive behaviours and relationship difficulties, who often have a diagnosis of personality disorder. Taith is a prime example of client involvement being at the core of a service.

Its work in providing integrated health and social care in rural Llanwrst has also been recognised in the 'Working Seamlessly Across Organisations' category. Canolfan Crwst provides a convenient local single point of access to an expanded range of Health and Social Care services for Conwy's rural communities. The centre is a tremendous resource for local people, and is a good example of the Health Board and the Local Authority working together to streamline patient care.

The NHS Wales Awards 2010 are jointly organised by the National Leadership and Innovation Agency for Healthcare (NLIAH) and the Welsh Assembly Government, and recognise best practice and achievement.

NLIAH Director of Research and Development, Dr Alan Willson, who leads the NHS Awards project, said, "The high standard of entries from all areas of Wales demonstrates that patients are benefiting from well designed and

successful improvements to give them the best possible experience of health and healthcare.

“The Awards are an opportunity to celebrate success and to ensure that good ideas and standards are spread rapidly.

“The standard of entries has increased rapidly over the three years since the Awards were launched and demonstrate world class levels of ambition and achievement. “

The winners of the six NHS Wales Awards will be announced in the All Nations Centre, Cardiff on Friday, July 2, 2010.

ENDS